The Planning Inspectorate
Yr Arolygiaeth Gynllunio

Cynllunio Seilwaith Cenedlaethol
Temple Quay House
2 The Square
Bryste
BS1 6PN

Gwasanaethau Cwsmeriaid: 0303 444 5000
E-bost: awelymor@planninginspectorate.gov.uk

Yr Ymgeisydd, Yr Holl Bartïon â Buddiant, Unigolion yr Effeithir Arnynt, ac Unigolion Eraill.

Eich Cyf:

Ein Cyf: EN010112

Dyddiad: 07 Chwefror 2023

Annwyl Syr / Fadam

**Deddf Cynllunio 2008 a Rheolau Cynllunio Seilwaith (Gweithdrefn Archwilio) 2010 – Rheol 13**

**Cais gan Awel y Môr Offshore Wind Farm Limited am Orchymyn yn Rhoi Caniatâd Datblygu ar gyfer prosiect Fferm Wynt Alltraeth Awel y Môr**

**Hysbysiad o wrandawiadau**

Ysgrifennwn at yr holl Bartïon â Buddiant ac Unigolion Eraill i'w hysbysu am ddyddiadau, amserau a lleoedd gwrandawiadau sydd i ddod a gynhelir ar 28 Chwefror ac 1 Mawrth 2023. Rhoddir manylion pwysig am y ddau yn Atodiad A y llythyr hwn.

**Gwrandawiadau**

Er mwyn tegwch a chyflawnder, rydym wedi penderfynu cynnal Gwrandawiad Caffael Gorfodol (CAH). Bydd Gwrandawiad Mater Penodol (ISH) ar faterion penodol yn cael ei gynnal hefyd. Rhoddir y manylion a'r trefniadau ar gyfer y gwrandawiadau hyn yn Atodiad A. Sylwch y bydd y gwrandawiadau hyn yn dechrau am **9:30am**, yn hytrach na 10:00am, sef yr amser pryd y mae digwyddiadau blaenorol wedi dechrau.

Cynhelir y gwrandawiadau fel digwyddiadau cyfunol. Mae hyn yn golygu y byddant yn cael eu cynnal fel digwyddiadau rhithwir gan ddefnyddio Microsoft Teams yn ogystal â digwyddiadau 'wyneb yn wyneb' ffisegol. Byddem yn ddiolchgar pe gallech roi gwybod i ni a ydych yn bwriadu mynychu unrhyw un o'r gwrandawiadau, wyneb yn wyneb neu'n rhithwir (hyd yn oed os nad ydych yn dymuno siarad) erbyn **Terfyn Amser 6, 20 Chwefror 2023** fan bellaf. Byddai hefyd o gymorth i ni pe gallech roi

gwybod i Dîm Achos yr Arolygiaeth Gynllunio am unrhyw ofynion arbennig a allai fod gennych (e.e. mynediad i'r anabl, dolen glyw ac ati).

Bydd agenda ar gyfer pob un o'r gwrandawiadau'n cael ei chyhoeddi ar dudalen y prosiect ar y wefan Cynllunio Seilwaith Cenedlaethol o leiaf bum niwrnod gwaith cyn y digwyddiadau. Bydd y manylion sydd i'w hystyried yn y gwrandawiadau'n cael eu cadarnhau ar yr adeg hon hefyd.

Sylwch, os na fydd angen unrhyw un o'r digwyddiadau a amserlennwyd yn Atodiad A mwyach, rhoddir rhybudd rhesymol i'r partïon am ein penderfyniad i'w canslo.

Os bydd gennych unrhyw ymholiadau pellach, cysylltwch â Thîm yr Achos gan ddefnyddio'r manylion ar frig y llythyr hwn.

Yn gywir

*Jon Hockley*

**Aelod Arweiniol yr Awdurdod Archwilio**

**Atodiadau**

**A** Hysbysiad o Wrandawiadau

**Atodiad A: Hysbysiad o Wrandawiadau**

Bydd y Gwrandawiad Caffael Gorfodol a'r Gwrandawiad Mater Penodol ychwanegol yn cael eu cynnal fel a ganlyn:

| Dyddiad | Gwrandawiad | Amser Dechrau | Lleoliad | Mynediad a pharcio |
|---|---|---|---|---|
| Dydd Mawrth 28 Chwefror 2023 | Gwrandawiad Caffael Gorfodol (CAH) | **9:30am**<br><br>Seddau ar gael/ Cynhadledd Drefniadau o: 09:00am | Digwyddiad rhithwir (Microsoft Teams) ac Ystafell Hall A, Venue Cymru, Y Promenâd, Llandudno LL30 1BB | Mae Venue Cymru yn gweithredu maes parcio Talu ac Arddangos y tu cefn i'r adeilad, ac mae lleoedd parcio penodol i'r anabl i'r chwith o'r brif fynedfa. Mae lleoedd parcio hefyd ar gael ar y Promenâd ar sail Talu ac Arddangos tan 4pm, ac yna am ddim wedi hynny. |
| Dydd Mercher 1 Mawrth 2023 | Gwrandawiad Mater Penodol (ISH4) ar effeithiau amgylcheddol alltraeth (os bydd angen) a'r Gorchymyn Caniatâd Datblygu drafft | **09:30am**<br><br>Seddau ar gael/ Cynhadledd Drefniadau o: 09:00am | | |

Mae gwybodaeth am wrandawiadau wedi'i chynnwys yn [‘Nodyn Cyngor 8.5: Yr archwiliad: gwrandawiadau ac arolygiadau safle’ yr Arolygiaeth Gynllunio]().

**Os hoffech fynychu unrhyw un o'r gwrandawiadau hyn, cysylltwch â'r Tîm Achos gan ddefnyddio'r manylion ar frig y llythyr hwn erbyn Terfyn Amser 6, dydd Llun 20 Chwefror 2023 fan bellaf**, gan ddatgan:

• p'un a ydych yn dymuno siarad yn y gwrandawiad a'r materion yr hoffech wneud sylwadau llafar amdanynt; a

• rhoi gwybod i ni am unrhyw anghenion arbennig a allai fod gennych (e.e. mynediad i'r anabl, dolen glyw ac ati).

Bydd seddau ar gael yn y lleoliad 30 munud cyn i'r gwrandawiad ddechrau er mwyn iddo allu dechrau'n brydlon. O ran y rhai hynny sy'n ymuno'n rhithwir, bydd cynhadledd drefniadau'n dechrau ar yr un pryd (9.00am). Bydd y gwrandawiad yn gorffen cyn

gynted ag y bydd yr Awdurdod Archwilio (ExA) yn ystyried bod pawb sy'n bresennol wedi cael lleisio'u barn a bod yr holl faterion wedi derbyn sylw. Yn dibynnu ar y niferoedd sy'n dymuno siarad yn y gwrandawiad, efallai y bydd angen i'r ExA gyfyngu ar yr amser a neilltuir i bob siaradwr.

**Agendâu'r gwrandawiadau**

Sylwch, yn gyffredinol ar gyfer CAH neu ISH, y bydd yr ExA yn ceisio cyhoeddi agenda ddrafft fanwl ar wefan y prosiect o leiaf bum niwrnod gwaith cyn dyddiad y gwrandawiad. Fodd bynnag, fe allai'r union agenda ar ddiwrnod pob gwrandawiad newid yn ôl disgresiwn yr ExA.

**Gwybodaeth gyffredinol**

Gwahoddir pob Parti â Buddiant i fynychu'r gwrandawiadau ac mae gan bob Parti â Buddiant yr hawl i wneud sylwadau yn y gwrandawiad.

Caiff cyfranogwyr gael eu cynrychioli'n gyfreithiol os dymunant, ond bydd y gwrandawiad yn cael ei gynnal mewn ffordd sy'n sicrhau nad oes angen cynrychiolaeth gyfreithiol. Yn ôl arweiniad o dan Ddeddf Cynllunio 2008 a Rheolau Cynllunio Seilwaith (Gweithdrefn Archwilio) 2010, yr ExA fydd yn holi, profi ac asesu'r dystiolaeth trwy holi unigolion sy'n gwneud sylwadau llafar mewn gwrandawiadau yn uniongyrchol. Bydd holi yn y gwrandawiad yn cael ei arwain gan yr ExA.

**COVID-19**

Peidiwch â mynychu unrhyw wrandawiadau 'wyneb yn wyneb' os ydych wedi bod yn profi unrhyw symptomau, wedi cael prawf positif, neu wedi bod mewn cysylltiad ag unrhyw un sydd wedi cael prawf positif. Rhowch wybod i Dîm yr Achos os byddwch yn cael prawf positif ar ôl mynychu digwyddiad wyneb yn wyneb.